# HUGHES, HENRY BAILEY (1833 - 1887), offeiriad Catholig

**Enw:** Henry Bailey Hughes
**Dyddiad geni:** 1833
**Dyddiad marw:** 1887
**Rhiant:** Howell Hughes
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** offeiriad Catholig
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Edward Morgan Humphreys

Ganwyd yng Nghaernarfon, lle'r oedd ei dad, y Parch. Howell Hughes, yn gurad. Yn ddiweddarach bu ei dad yn rheithor Trefriw (1833-9) a Rhoscolyn, Môn (1839-48). Ymunodd Henry Bailey ag Eglwys Rufain pan tua 16 oed. Bu yn y Coleg Dominicaidd yn Lisbon ac ar deithiau cenhadol yn Ewrob, Affrica, a'r Unol Daleithiau. Pan ddychwelodd i Gymru sefydlodd ar ynys Sant Tudwal, ar arfordir Ll n, a bu'n pregethu yn Ll n ac mewn rhannau eraill o Sir Gaernarfon. Cyfansoddodd emynau a cherddi crefyddol Cymraeg ac ymdrechodd ennill ei gydwladwyr i gofleidio ffydd Eglwys Rufain. Bu farw 16 Rhagfyr 1887.

## Awdur

**Edward Morgan Humphreys**, (1882 - 1955)

## Ffynonellau


Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (1852)

J. H. Matthews, *A Sketch of the Life and Labours of Father Hughes* (1890), 1890

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

J. Jones ('Myrddin Fardd'), *Enwogion Sir Gaernarfon* (1922)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733137

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu